CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 8fed o Orffennaf 2026 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng.Sion Alun Roberts (Cadeirydd) Wyn Lewis, Idris Jones, John P Jones, Berwyn Harding a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng Sion Alun Roberts. Roedd ymddiheuriadau i law gan y Cyng Catrin Johnson, Lynne Mccrickett, Rhys Davies a John P Roberts.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar y 13eg o Fai ar gynnig Cyng John P Jones a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding. Penderfynwyd yn unfrydol i beidio ychwanegu sylwadau pellach arnynt.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Llwybrau, Priffyrdd a Chefnffyrdd. –** adroddwyd am y materion diweddaraf, yn cynnwys gwybodaeth nad oedd yr Adran Briffyrdd am wneud mwy o waith yn Aberangell

**b) Dyfodol Eglwys Llanymawddwy**. – nid oedd unrhyw ddiweddaraid

c**) Gwaith ar safle y gofgolofn yn Minllyn –** roedd gohebiaeth drwy law Cyng Lynn Mcrickett yn amgau amcangyfrif (drwy Stuart England) gan DM Building Services am £550, ond oedd yn nodi tynnu mortar a glanhau gan wirfoddolwyr. Gwelwyd fod hyn tipyn mwy na'r £200 a nodwyd yn wreiddiol am y gwaith. Penderfynwyd gadael hyn tan y cyfarfod nesaf, ac yn y cyfamser cael mwy o wybodaeth am y sefyllfa.

d) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned. Roedd yr holl ohebiaeth am broses y grant wedi ei ddanfon i'r Cynghorwyr, a'r cytundeb gan Gyngor Gwynedd i dalu y grant. Roedd 3 syniad allai fynd ymlaen yn awr, sef ;

- Cyng Sion A. Roberts/John P Roberts – gwneud bwrdd gwybodaeth am enwau mynyddoedd ym mhen uchaf Llanymawddwy, a'i roi ger Brynawel.

- Cyng John P Roberts/Sion A Roberts – cael cerrig i wella y maes parcio yn Llanymawddwy.
- Cyng Wyn Lewis/ Lynn Mcrickett – cael arwydd 'Parcio' yn y Plas yn Dinas.

  Nodwyd e-bost i law gan Arfon i'r Cyng Wyn Lewis yn gofyn a ellir cael llythyr yn gofyn i Cwmni Nod Glas Cyf. am 'ganiatâd i roi'r arwydd Parcio fyny fel bod y ddwy ochr yn cytuno I'r bwriad a sut bydd yn cael ei osod a phwy fydd yn gwneud y gwaith'
  Dywedodd Wyn y byddai yn ymdrin a hyn, a chopio y Clerc yn y gohebiaeth.

Nodwyd fod rhaid cael yr anfonebau i'w talu erbyn cyfarfod mis Rhagfyr o'r Cyngor, sef y 9fed. Diolchwyd i bawb.

e) **Asesiadau risc y mynwentydd** – adroddwyd am ymweliadau fel a ganlyn;

**Dinas Mawddwy** – Cyng Idris Jones a John P Jones – adroddwyd am rai cerrig yn gwyro, ond nad oedd perygl. Yn achos un garreg, addawodd Cyng Idris Jones gysylltu gyda'r teulu.

**Llanymawddwy** – Cyng John P Roberts a Sion Alun Roberts – adroddwyd fod un neu ddau o'r cerrig yn gwyro, ond nad oedd unrhyw berygl.

**Mallwyd** – Cyng Lynn Mcrickett a Catrin Johnson - byddai rhaid trafod y tro nesaf.

Byddai'r Clerc yn diweddaru yr asesiad risc pan fyddai'r cyfan yn gyflawn.

f) **Cronfeydd Cymunedol Eryri –** adroddodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol (ynglyn a'r posibilrwydd o gael addurniadau Nadolig i'r goeden) , ond bod holl arian y gronfa ar gyfer Haen 1 o'r gronfa wedi ei wario yn wythnosau cyntaf Ebrill. Mae'n bosib y byddai cyfle eto y flwyddyn nesaf.

g) **Chwalu llwch – mynwent Llanymawddwy –** nid oedd gohebiaeth pellach yn y cyswllt hwn, ond gwelwyd nad oedd problem cyn belled a bod y ffi cywir yn cael ei gytuno a'i dalu.

h) **Cofrestr asedau** – cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda'r Cwmni yswiriant Clear Councils i ychwanegu byrddau picnic, meinciau, potiau blodau a lectern, ond roedd cadarnhad y byddai rhain yn cael 'cover ' o dan rhan 'street furniture' y polisi.

5. **Materion Cynllunio**

Roedd llythyr gan Iona Roberts o'r Parc Cenedlaethol yn rhoi trosolwg byr o Wasanaeth Cydymffurfiaeth yr Awdurdod – byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu er gwybodaeth i bawb.

6. **Materion Cyllid.**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (8.07.26), sef Cyfri Cyfredol £10,019.21, Cyfri Claddedigaeth £1473.79, Cyfri Cadw £803.19.

   Cadarnhawyd fod y Cadeirydd wedi ei ychwanegu i'r rhestr arwyddo ar ran y Cyngor Cymuned. Y cam nesaf oedd ei ychwanegu i'r broses bancio ar-lein er mwyn cymeradwyo sieciau.

b) **Anfonebau i'w talu;**

   Ar gynnig Cyng John P Jones a'I eilio gan Cyng Wyn Lewis, cytunwyd i dalu'r canlynol;

   - G W Davies - torri gwair mynwentydd - £900
   - Cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc £525.05, a HMRC £131.20

c) Ceisiadau am arian

   Kids Cancer Charity – penderfynwyd peidio cyfrannu.

7. **Gohebiaeth.**

a) Nodwyd Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru, a byddai'r Clerc yn trefnu fel bo'r angen.

**b)** Roedd gohebiaeth gan y Parc Cenedlaethol yn nodi cais am adborth ar y proffiliau anheddau drafft oedd i law. Roedd hwn wedi eu danfon i bawb ar y 25.06.26, ac os oedd gan unrhyw un sylwadau, byddai rhaid ymateb erbyn diwedd Gorffennaf.

***c)*** Nodwyd ymgynghoriad ynglyn a'r bwriad i godi ardoll ar ymwelwyr. Roedd cyfle i roi sylwadau, ac roedd hyn wedi ei ddanfon allan i bawb ar 30.06.26. . Roedd angen ymateb erbyn 28 Gorffennaf, a byddai'r Clerc yn rhoi poster i fynny.

d) Roedd gwybodaeth am Reolaeth Coedwigaeth mewn rhai ardaloedd, a gwahoddiad am unrhyw ymateb. Byddai'r Clerc yn dosbarthu.

e) Roedd gwahoddiad gan yr Urdd i ddigwyddiad yn Llangrannog ar y 3ydd Awst yng nghyswllt ein cyfraniad i Gronfa Cyfle i Bawb.

f) Adroddodd y Clerc am ohebiaeth pellach gan Claire Griffiths, 1 Bryn Dyfi ynglyn a'r angen i dorri 3 coeden ar dir Comin gerllaw. Roedd cais am gyfraniad tuag at dorri y coed. Gwelwyd fodd bynnag fod hwn yn fater preifat iddi hi, ac na fedrai y Cyngor gyfrannu. Hefyd byddai yn gosod cynsail i geisiadau tebyg yn y dyfodol, na fedrai y Cyngor Cymuned gynorthwyo.

**8.. Unrhyw Fater arall.**

a) Roedd ceir yn parcio ar y bont (gerllaw'r arhosfan bws) yn Aberangell, oedd yn achosi anhwylustod, ac yn arbennig trafferthion i fysiau droi. Hefyd roedd rhai canllawiau pren y bont wedi cwympo, oedd yn fater o bryder gan fod llwybr cyhoeddus gerllau.

b) Diolchwyd yn fawr iawn i Hedd Pugh am dorri gwair ar gomin Dolybont. Diolchwyd hefyd i'r Cyng Idris Jones am drwsio mainc ar Dolybont.

c) Roedd coed yn gwyro i'r ffordd o dir Pentrebach, ac yn amharu ar rai yn defnyddio y ffordd yma.

d) Roedd potholes ar y ffordd A470 uwchlaw Dinas, ac angen sylw yr Asiantaeth Cefnffyrdd.

e) Roedd pryder am sefyllfa yr Hen Fynwent, gan fod rhedyn wedi tyfu yno ac angen eu torri. Atgoffwyd nad oedd y fynwent yma yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned, a bod yna Bwyllgor Hen Fynwent arwahan.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 2ail o Fedi 2026 , 8.00y.h.**